# San Fermín

Ar ôl gwylio fideo 'San Fermín', darllenwch y brawddegau isod a rhowch nhw mewn trefn.

Ar y 6ed o Orffennaf, mae pawb yn ymgynnull o flaen neuadd y dref. Am hanner dydd mae'r dathlu'n dechrau'n swyddogol ac mae pawb yn gweiddi 'Viva San Fermín!' a 'Gora San Fermín!' (Hir oes i San Fermín!) ac mae rocedi yn cael eu saethu i'r awyr!

Mae cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig yn y dathlu hefyd ac mae llawer o ddathlu a phartïon ar y strydoedd.

Mae'r dathlu'n gorffen am hanner nos ar y 14eg o Orffennaf. Mae pawb yn ymgynnull yn sgwâr y dref ac yn canu'r gân 'Pobre de mi' (Druan â fi) achos bydd rhaid aros blwyddyn arall cyn dathlu 'San Fermín' eto!

Maen nhw'n dathlu 'San Fermín' mewn lle o'r enw Pamplona yng ngogledd Sbaen.

Mae pawb yn gwisgo crys neu grys T gwyn a sgarff goch o gwmpas eu gwddf.

Am un ar ddeg o'r gloch bob nos mae tân gwyllt.

Mae'r teirw'n cael eu gadael yn rhydd bob bore ac mae pawb yn rhedeg. Mae'n bwysig bod yn ofalus wrth gwrs achos mae'n gallu bod yn beryglus.

© Peniarth.Cymru, 2022